



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol
(01443 424062)

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX** ar **DYDD IAU, 18FED HYDREF, 2018** am **5.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 16 HYDREF 2018, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. HUMAN RIGHTS ACT 1998 AND DEVELOPMENT CONTROL DECISIONS

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. WELLBEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyfrif cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 6 Medi, 2018.

5 - 12

CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR GWASANAETH - MATERION CYNLLUNIO

5. CAIS: 18/0067

Dymchwel neuadd yr efengyl bresennol (D1) ac adeiladu adeilad deulawr yn ei le i ddarparu ar gyfer swyddfa B1 ar y llawr gwaelod gyda fflat hunangynhwysol un ystafell wely ar y llawr cyntaf (cynlluniau diwygiedig a disgrifiad wedi'u derbyn 13/03/18, adroddiad ecoleg wedi'i dderbyn 22/08/18, Asesiad Risg Cloddio Glo wedi'i dderbyn 04/09/18), Man Addoli, Ffordd Caerdydd, Glan-y-Llyn, Ffynnon Taf.

13 - 28

6. CAIS: 18/0209

Arena Farchogaeth Dan Do i'w defnyddio yn unig gyda'r iard geffylau bresennol (rhan ôl-weithredol), Marchdy a Chartref, Fferm Craig yr Allt, Uplands, Nantgarw, Ffynnon Taf.

29 - 40

7. CAIS: 18/0856

Gosod pont droed newydd i gerddwyr ar draws Afon Taf, gan gysylltu Parc Ynysangharad â Safle Ailddatblygu Canolfan Dyffryn Taf (Cyfeirnod Caniatâd: 17/0793/08). Mae'r cynigion yn cynnwys dymchwel yr hen ystafelloedd newid (wrth ymyl safle'r hen ganolfan ddydd) a symud y ramp cerbyd presennol i'r ardal barcio anffurfiol is, hen Ganolfan Siopa Dyffryn Taf, Stryd Taf Pontypridd.

41 - 60

8. CAIS: 18/0909

Cyfleuster parcio a theithio arfaethedig yn Abercynon. Byddai'r cyfleuster yn gysylltiedig â Gorsaf Drenau Abercynon, a byddai'n creu 311 o lefydd parcio oddi ar y stryd. Byddai'r gwaith yn cynnwys cau dwy gyffordd tua'r gorllewin, a newidiadau i'r gyffordd tua'r dwyrain oddi ar ffordd fynediad gyfredol y parc busnes. Tir ym Mharc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon, Aberpennar.

61 - 74

9. CAIS: 18/0943

2 ffenestr gromen yng nghefn anecs mam-gu, 17 Clos Afon Dâr, Gadlys, Aberdâr.

75 - 80

10. CAIS: 18/0954

Adeiladu pwll, Melin y Cwm, Heol Ffrwd Philip, Efail Isaf, Pontypridd.

81 - 88

11. CAIS: 18/0982

Amrywio amod 1 o gais 17/1071/15 i ymestyn y caniatâd dros dro presennol ar gyfer y cabanau i barhau am 24 mis pellach, o 23 Hydref 2018 ymlaen. Meddygfa Heol Caerdydd, 8 Heol Caerdydd, Aberpennar.

89 - 94

ARCHWILIAD O'R SAFLE

12. CAIS: 18/0187/10

Dymchwel yr adeilad presennol a chodi datblygiad newydd o 15 o fflatiau a gwaith cysylltiedig. Empire Garage, Heol Glan-elái, Tonysguboriau, Pont-y-clun, CF72 8HY.

95 - 120

CAIS WEDI'U GOHIRIO

13. CAIS: 13/0350

Amrywio Cytundeb Adran 106 wedi'i ddyddio 24 Mawrth 2014, parthed tir ym Mharc Eirin, Tonyrefail.

121 - 144

ADRODDIAD ER GWYBODAETH

14. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 07/09/2018 hyd at 05/10/2018.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi.
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

145 - 170

15. BUSNES BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol

Cylchrediad:-

Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd S Powell,
Y Cynghorydd W Owen, Y Cynghorydd J Harries and Y Cynghorydd R Yeo

Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Cyfarwyddwr Uwchadran Adfywio, Cynllunio a Thai
Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio
Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cynllunio a'r Amgylchedd